WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Gynigion ar gyfer Gwella – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1164A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhan o waith a berfformiwyd/a gaiff ei berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo hynny'n berthnasol, yr archwilydd a benodir yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 4

Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru 5

Mae gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion 5

Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiad dethol 6

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Diben yr adolygiad hwn yw cael sicrwydd bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) drefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'i fod yn gwerthuso i ba raddau y mae ei gamau gweithredu yn cyfrannu at gyflawni perfformiad gwasanaeth a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.

2 Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad lleol, 'Adolygiad o Drefniadau i Godi Safonau mewn Ysgolion'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r Cyngor nodi yn ei Gytundeb Partneriaeth gyda chyrff llywodraethu ysgolion ac yn ei berthynas gyda GwE[1] y ffaith mai gwasanaeth a rennir sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru yw GwE, yn hytrach na gwasanaeth gaiff ei gomisiynu.

3 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod cydweithio da rhwng aelodau, swyddogion a phartneriaid o fewn fframwaith llywodraethu sy'n gwella, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac agweddau ar drefniadau'r Cyngor yr oedd yn cydnabod nad oeddynt yn gweithio'n dda;
- bod y Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei ddefnydd strategol o adnoddau, ond bod rhagor o waith i'w wneud yn wyneb heriau ariannol;
- bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei flaenoriaethau gwella allweddol;
- gwnaeth yr adroddiad hwn chwe chynnig ar gyfer gwella; a
- bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei flaenoriaethau gwella allweddol.

4 I gael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella, fe wnaethom adolygu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth weithredu ar y cynigion hyn ar gyfer gwella ac effeithiolrwydd ei drefniadau i wneud hynny.

5 Gwelwyd bod gan y Cyngor brosesau boddhaol er mwyn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion; a
- bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn ein hadroddiad ar drefniadau i godi safonau mewn ysgolion.

## Cynigion ar gyfer gwella

6 Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn.

[1] GwE yw'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion i'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru

# Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae gan y Cyngor drefniadau boddhaol ar gyfer mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella ac argymhellion

7 Mae gan y Cyngor brosesau eglur ar waith i gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion o holl adolygiadau allanol, gan gynnwys rhai gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CiW) ac Estyn i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) sy'n blaenoriaethu'r argymhellion yn ôl risg a'u cydnawsedd â blaenoriaethau corfforaethol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r UDRh am berthnasedd argymhellion mewn adroddiadau cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, pa fo'n bosibl na fydd yr holl ganfyddiadau yn berthnasol i'r Cyngor.

8 Mae Penaethiaid Gwasanaethau yn datblygu camau i ymateb i'r argymhellion ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau gwasanaethau. Mae gwasanaethau yn tracio cynnydd ar gynlluniau bob chwe mis ac mae panel o uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn adolygu ac yn herio cynnydd mewn adolygiadau blynyddol o berfformiad gwasanaethau. Pan fo angen sicrwydd ychwanegol ar y Cyngor, mae'n gallu sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i oruchwylio a monitro gweithrediad argymhellion blaenoriaeth uchel. Mae'r UDRh yn pennu pa adroddiadau allanol sy'n cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu'r Cyngor. Caiff adroddiadau y mae'r UDRh yn ystyried eu bod yn flaenoriaeth neu'n risg uchel eu hadrodd fel arfer naill i'r Pwyllgorau Craffu, ag adroddiadau dilynol yn ôl yr angen. Ymhellach, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gallu cyfeirio adroddiadau i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu pan fydd y pwyllgor yn teimlo y dylid craffu ymhellach ar adroddiadau allanol. Ar hyn o bryd, caiff holl adroddiadau cenedlaethol a lleol Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau archwilio eraill eu hanfon i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae pob aelod wedi cael y cyfle i ddarllen a thrafod yr holl adroddiadau allanol sy'n cael eu cyhoeddi'n llawn a'u rhoi'n eitemau ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

9 Mae swyddogion y Cyngor yn llunio Cynlluniau Gweithredu cynhwysfawr gydag amserlenni eglur i holl adroddiadau cenedlaethol a lleol Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau archwilio eraill. Mae hyn yn helpu i hybu mwy o dryloywder drwy sicrhau bod aelodau Pwyllgorau'n derbyn gwybodaeth briodol ac yn gallu mynd ar drywydd unrhyw faterion sydd o ddiddordeb neu sy'n achosi pryder. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu adroddiad hanner blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gynnydd ar holl argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a geir yn adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (ac adroddiadau allanol eraill fel rhai gan CiW). Mae hyn hefyd yn helpu i fonitro cynnydd a hwyluso atebolrwydd.

10 Mae gan y Cyngor drefniadau tebyg ar gyfer mynd ar drywydd argymhellion Archwilio Mewnol. Mae gwasanaethau yn derbyn cyfrifoldeb am risgiau a'r

materion a nodwyd ac yn datblygu'r camau gweithredu angenrheidiol i fynd i'r afael â nhw. Mae cyfarfodydd adolygu gwasanaethau wedyn yn dwyn uwch swyddogion i gyfrif am gynnydd ar yr argymhellion. Mae Archwilio Mewnol gan amlaf yn mynd ar drywydd argymhellion adroddiadau archwilio â sicrwydd cyfyngedig neu brin iawn, a hynny yn fuan ar ôl i'r adeg pan oedd y camau a gynlluniwyd i fod wedi'u cwblhau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau a'u bod wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Ymhellach, ni all gwasanaethau newid dyddiad cyrraedd targedau r gyfer camau gweithredu heb gymeradwyaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu goruchwyliaeth effeithiol, yn derbyn adroddiadau diweddaru rheolaidd ac yn dwyn gwasanaethau i gyfrif am ddiffyg cynnydd yn ôl yr angen.

## Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn yr adroddiad dethol

11 Yn ein hadroddiad Adolygiad o Drefniadau i Godi Safonau mewn Ysgolion, gwnaethom dri chynnig ar gyfer gwella. Mae ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r rhain yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'n cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella – Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Adolygiad o Drefniadau i Godi Safonau mewn Ysgolion' | Ein gwerthusiad o gynnydd gan y Cyngor |
|---|---|
| 1. Dylai'r Cyngor nodi yn ei Gytundeb Partneriaeth gyda chyrff llywodraethu ysgolion ac yn ei berthynas gyda GwE y ffaith mai gwasanaeth a rennir sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru yw GwE yn hytrach na gwasanaeth gaiff ei gomisiynu. | Wedi'i wneud.<br>Ymateb y Cyngor oedd cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau cydweithio â GwE. Sefydlwyd cyfarfodydd monitro pythefnosol rhwng GwE a'r Cyngor i adolygu'r Cynllun Busnes ar y cyd newydd. Cryfhawyd trefniadau rhannu data ac mae cynrychiolwyr y Cyngor a GwE yn mynychu holl gyfarfodydd Byrddau ar wella cyflym mewn ysgolion. Yn dilyn ailstrwythuro gan GwE, adolygwyd y trefniadau gweithio gweithredol gyda GwE gyda llinellau atebolrwydd cliriach rhwng GwE a'r Cyngor. Cytunwyd ar gytundeb partneriaeth rhanbarthol gyda GwE ar draws Gogledd Cymru ac fe'i rhoddwyd ar waith yn llawn ym Medi 2018. |
| 2. Dylai'r Cyngor weithio gyda GwE ac arweinwyr ysgol cynrychioladol i adolygu'r Cytundeb Partneriaeth gyda chyrff llywodraethu ysgolion, gan sicrhau ei fod yn cynnwys:<br>• mwy o eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng rôl swyddogion effeithiolrwydd ysgol y Cyngor a rôl ymgynghorwyr her GwE; ac | Wedi'i wneud.<br>Cytunwyd ar gytundeb partneriaeth rhanbarthol gyda GwE ar draws Gogledd Cymru ac fe'i rhoddwyd ar waith yn llawn ym Medi 2018. Mae'r Cytundeb Partneriaeth newydd yn egluro rôl swyddogion effeithiolrwydd ysgolion y Cyngor ac ymgynghorwyr her GwE. Mae'r rolau i'r Cyngor a chyrff llywodraethu ysgolion o safbwynt cefnogaeth ariannol ac AD yn yr ysgolion hynny nad |

| Cynigion ar gyfer gwella – Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Adolygiad o Drefniadau i Godi Safonau mewn Ysgolion' | Ein gwerthusiad o gynnydd gan y Cyngor |
|---|---|
| • adrannau sy'n nodi gwahanol rolau'r Cyngor a chyrff llywodraethu ysgolion o ran cymorth ariannol ac AD yn yr ysgolion hynny nad ydynt efallai'n dewis prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. | ydynt efallai'n dewis prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi'u nodi'n glir yn y Cytundeb Partneriaeth Newydd. |
| 3. Ar ôl adolygu ei Gytundeb Partneriaeth gyda chyrff llywodraethu ysgolion, dylai'r Cyngor:<br>• ddefnyddio ei drefniadau Craffu a Chabinet i sicrhau bod y Cytundeb yn cael ei berchen yn gorfforaethol;<br>• sicrhau ei hun bod holl gyrff llywodraethu ysgolion wedi mabwysiadu'r Cytundeb, neu lle nad yw llywodraethwyr yn teimlo eu bod yn gallu cytuno, bod y Cyngor yn llwyr ymwybodol o'u pryderon; ac<br>• adolygu swydd ddisgrifiadau swyddogion effeithiolrwydd ysgolion, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y dyletswyddau gaiff eu nodi yn y Cytundeb, a bod dyletswyddau eraill yn ddarostyngedig i'r rhai a nodir yn y Cytundeb. | Wedi'i wneud ar y cyfan.<br>Mae Craffu a'r Cabinet yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran holl faterion Perfformiad Addysgol gan gynnwys cynnydd y Cytundeb Partneriaeth newydd. Ymhellach, mae swyddogion y Cyngor wedi sefydlu grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Ysgolion sy'n goruchwylio gweithrediad manwl y Cytundeb Partneriaeth newydd ac sy'n ymddwyn fel haen ychwanegol o her i holl ysgolion Conwy. Gwahoddir pob ysgol uwchradd i'r her a gynhelir dan arweiniad Aelodau yn flynyddol a gwahoddir ysgolion cynradd ar gylch tair blynedd. Mae swyddogion o wasanaeth addysg y Cyngor a GwE hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd her. Pwrpas y cyfarfodydd yw trafod meysydd penodol o ran cynnydd ysgolion a sicrhau bod gan y Cyngor ddealltwriaeth eglur o gyfeiriad cynnydd yr ysgol.<br>Ar ôl cytuno ar gytundeb partneriaeth rhanbarthol gydag ysgolion, dechreuodd cyrff llywodraethol holl ysgolion Conwy fabwysiadu'r trefniadau newydd. Nid yw'r broses o fabwysiadu'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i chwblhau gan bob ysgol hyd yma.<br>Mae holl swydd ddisgrifiadau swyddogion effeithiolrwydd ysgolion wedi cael eu hadolygu. |

12 Adroddir ar gynnydd y cynigion ar gyfer gwella yn rheolaidd i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ac yn Hydref 2018, cytunodd y Pwyllgor bod digon o gynnydd wedi'i wneud ar y ddau gynnig cyntaf i'r pwyllgor lofnodi eu bod wedi'u cwblhau. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hyd yma wedi llofnodi'r trydydd cynnig yn llawn. Roedd yr adroddiad diweddaraf i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ar y Cytundeb Partneriaeth newydd yn Chwefror 2019 yn nodi bod swyddogion yn dal i aros am gadarnhad terfynol bod holl ysgolion Conwy wedi mabwysiadu'r cytundeb partneriaeth cyn y gallant argymell bod digon o gynnydd wedi'i wneud i'r Pwyllgor lofnodi bod trydydd cynnig Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gwblhau'n llawn. Mae swyddogion o'r farn y bydd y broses fabwysiadu wedi'i chwblhau'n llwyr gan holl ysgolion erbyn Gwanwyn 2019 ac y bydd modd llofnodi'r cynnig ar gyfer gwella.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru